

Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) (Diwygio) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) (Diwygio) 2022.

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

15 Gorffennaf 2022

1. Disgrifiad

Mae Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) (Diwygio) 2022 yn diwygio erthygl 2 o Orchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 ("y Gorchymyn") i ychwanegu cydbwyllgorau corfforedig a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i'r rhestr o awdurdodau perthnasol, gan wneud yr egwyddorion yn yr Atodlen i'r Gorchymyn yn gymwys i aelodau cydbwyllgorau corfforedig).

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Awst 2022.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn dymuno nodi bod y Gorchymyn hwn yn rhan o becyn o offerynnau sy'n sail i sefydlu Cydbwyllgorau Corfforedig ac sy'n ceisio sicrhau bod y Cydbwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un gofynion gweinyddol a llywodraethu â llywodraeth leol.

3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi llunio'r Gorchymyn hwn wedi'u cynnwys yn adran 49(2) a 105(2)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae adran 49(2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, bennu'r egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol. Mae adran 105(2)(a) yn darparu y caiff unrhyw orchymyn a wneir o dan y Ddeddf hon gynnwys unrhyw ddarpariaeth neu arbedion cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol neu atodol y mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus.

Cafodd y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Bydd y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn y Senedd yn rhinwedd Adran 105(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Cydbwyllgorau Corfforedig yn gyrrff corfforedig, a sefydlwyd trwy reoliadau, ac sy'n cynnwys y prif gynghorau yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sefydlu. Mewn rhai amgylchiadau cynhwysir Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru mewn Cyd-bwyllgor Corfforedig. Lle bo hyn yn wir nodir hyn yn y rheoliadau sefydlu perthnasol.

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 yn darparu, ymhlith pethau eraill, ar gyfer cymhwyso cod ymddygiad i aelodau Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy gymhwyso Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'r Cod

Ymddygiad Enghreifftiol yn rheoli ymddygiad aelodau awdurdodau perthnasol yng Nghymru.

Gwneir diwygiadau i nifer o reoliadau / gorchmynion drwy'r pwerau sydd ar gael yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 er mwyn i'r cod ymddygiad fod yn gwbl berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) (Diwygio) 2022 ("Gorchymyn diwygio") yn diwygio erthygl 2 o Orchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 ("y Gorchymyn"). Mae'r Gorchymyn diwygio yn ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at y rhestr o awdurdodau perthnasol, gan wneud yr egwyddorion yn yr Atodlen i'r Gorchymyn yn gymwys i aelodau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae'r Atodlen i'r Gorchymyn yn nodi'r egwyddorion sy'n rheoli ymddygiad aelodau awdurdodau perthnasol yng Nghymru.

Mae'r Gorchymyn diwygio yn ffurfio pecyn o welliannau i deddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn effeithiol.

Y bwriad cyffredinol yw y caiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ei drin fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' ac y bydd yn ddarostyngedig i raddau helaeth i'r un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu.

5. Ymgynghori

Mae adran 49(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gwneud rheoliadau, ymgynghori ag unrhyw gynrychiolwyr o awdurdodau perthnasol y mae o'r farn eu bod yn briodol; Archwilydd Cyffredinol Cymru; ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae'r ymagwedd gyffredinol at ddatblygu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i Gyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'i chyd-ddatblygu â Llywodraeth Leol, CLILC a nifer o rwydweithiau proffesiynol, gan gynnwys er enghraifft Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol a Chymdeithas Trysoryddion Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad ar Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 rhwng 10 Tachwedd 2021 a 22 Rhagfyr 2021 yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r dull a fwriadwyd i roi effaith lawn i gymhwyso'r Cod Ymddygiad i Gyd-bwyllgorau Corfforedig a gwnaed yn glir y byddai angen diwygio Gorchymyn 2001 i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd yr holl ymatebwyr i'r cwestiwn hwnnw yn cytuno â'r dull a amlinellwyd. Ymgynghorwyd yn benodol ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn:

<https://llyw.cymru/rheoliadau-cyd-bwyllgorau-corfforedig-cyffredinol-cymru-2022>

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân wedi'i baratoi mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Er hynny, fe wnaeth yr asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021 asesu'r costau a'r buddion posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried bwriad cyffredinol y polisi y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol', gan gynnwys dyletswyddau'r sector cyhoeddus ehangach megis y rhai yng Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001. Ystyriwyd felly'r costau sy'n gysylltiedig â chymhwyso Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol ar reoliadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu hunain.

Mae copi o'r [Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021 ar gael fel rhan o'r dogfennau perthnasol i gyd-fynd â'r Rheoliadau hynny.